



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Adroddiad Dethol Opsiwn Diwygio:
Grŵp Arbenigol 2

Hyblygrwydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus


Adroddiad Dethol Opsiynau: Diwygiadau 2A ac 2B

Mae'r papur hwn yn cyflwyno cynigion opsiynau diwygio diwygiedig ar gyfer gweithredu **Diwygiad 2A** a **Diwygiad 2B** y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. Caiff y papur ei ystyried gan **Grŵp Arbenigol 2** mewn gweithdai dethol opsiynau ym mis Ionawr 2021.

Cyflwyniad

Pennwyd y dasg i'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad ddatblygu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch cyflawni diben ei pholisi ar gyfer diwygio deddfwriaeth mynediad hamdden yng Nghymru.

Caiff y broses a sefydlwyd ar gyfer datblygu'r cyngor ei chrynhai isod:¹



Dyma fwriad y polisi ar gyfer Diwygiadau 2A a 2B:

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 2A

Galluogi beicio a marchogaeth ceffylau i ddigwydd drwy hawl ar lwybrau troed cyhoeddus, gan roi mwy o gyfleoedd i feicwyr a marchogion gael mynediad i'r awyr agored.

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1B

Gwella prosesau a lleihau'r beichiau sy'n gysylltiedig â darpariaethau dros dro i gau llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffylau am gyfnodau byr a hwyluso rheoli stoc arnynt. At hynny, caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran rheoli stoc ar hawliau tramwy cyhoeddus ac yn gyfagos iddynt wrth wneud y rhwydwaith yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Trwy weithio gyda grŵp arbenigol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, cynhyrchwyd papur nodi problemau/materion ar gyfer pob maes diwygio. Datblygwyd papur nodi opsiynau o bob un ohonynt yn crynhoi'r dulliau posibl o weithredu bwriad y polisi diwygio a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae pob opsiwn diwygio a gynigiwyd (e.e. 2A(i), 2A(ii), 2A(iii)) yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Teitl yr opsiwn
- Disgrifiad cryno o'r opsiwn
- Tabl yn rhestru'r *elfennau allweddol*² ar gyfer pob opsiwn a gynigir

Yna cynhyrchwyd adroddiad dadansoddi opsiynau manwl o bob opsiwn diwygio gan ddefnyddio mewnbwn uniongyrchol gan bob grŵp arbenigol yn ogystal â thystiolaeth a

¹ I gael rhagor o wybodaeth am y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad, proses a meysydd diwygio y grŵp hwn, ac allbynnau a gyhoeddwyd ar gyfer pob cam a gwblhawyd hyd yn hyn, ewch i: [wefan Llywodraeth Cymru](#).

² Ar gyfer pob opsiwn, yr elfennau allweddol yw'r newidiadau manwl amrywiol y cynigir eu bod yn angenrheidiol i weithredu bwriad y polisi diwygio. Mae elfennau allweddol yn cynnwys diwygio deddfwriaeth, yn ogystal â chymau gweithredu allweddol eraill ar gyfer cyflawni'r diwygiadau.

wahoddwyd gan aelodau o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, polisïau a fforymau mynediad lleol, ac arbenigwyr eraill o ar draws cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mewn gweithdai ar-lein ym mis Medi 2020, ystyriodd y grwpiau arbenigol yr adroddiadau dadansoddi opsiynau drafft. Defnyddiwyd y wybodaeth i ddatblygu ymhellach yr adroddiadau dadansoddi priodol a'u cwblhau, ac i ddatblygu'r papurau dethol opsiwn diwygio.

Y broses dethol opsiwn

Caiff y papurau **dethol opsiwn diwygio** yn ogystal â'r adroddiadau dadansoddi perthnasol eu hystyried gan y grŵp arbenigol priodol ym mis Ionawr 2021 mewn **gweithdai dethol opsiwn**.

Diben y gweithdai yw nodi:

- opsiwn dewisol
- cyngor ac ystyriaethau cysylltiedig

y grŵp arbenigol ar gyfer pob diwygiad.

Caiff y wybodaeth o'r gweithdai ym mis Ionawr 2021 ei hystyried gyda'r adroddiadau dadansoddi a'r allbynnau eraill o broses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad i greu adroddiad terfynol o gyngor i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni bwriad ei pholisi ar gyfer holl ddiwygiadau'r grŵp hwn.

Dylid nodi bod cynnwys y papur hwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cyngor i Lywodraeth Cymru er mwyn diwygio deddfwriaeth mynediad fel rhan o'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. Nid yw gwybodaeth ac allbynnau o'r fath a gynhyrchir yn ystod proses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad yn cynrychioli sefyllfa bolisi Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, sefydliadau sy'n ffurfio'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad (grŵp llywio / grwpiau arbenigol) na sefydliadau eraill sydd wedi cyfrannu, ac ni ddylid eu hystyried chwaith fel arwydd o gefnogaeth neu fel arall i'r cynigion.

Opsiynau diwygiedig Diwygiad 2A ar gyfer dethol opsiwn

Fel y disgrifir uchod, mae'r cynigion opsiynau diwygio gwreiddiol wedi'u diwygio ar ôl dadansoddi'r opsiynau. Mae teitlau a disgrifiadau'r opsiynau diwygiedig ar gyfer pob opsiwn 2A a gynigiwyd i'w ddethol fel opsiwn wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

2A: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
i. Rhoi hawliau statudol i feicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed cyhoeddus	Rhoi hawliau i feicio a marchogaeth ceffylau drwy statud ar y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus ledled Cymru gan ddefnyddio dull o fath Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968, gyda chafeat neu gymal cysylltiedig ar gyfer defnydd cyfrifol.
ii. Rhoi hawliau i feicio a marchogaeth ceffylau drwy statud ar lwybrau troed gyda phwerau i eithrio'r hawliau hynny ar sail anaddasrwydd	Yn yr un modd ag ar gyfer Opsiwn 2A(i), rhoi hawliau statudol i feicio a marchogaeth ceffylau ar draws y rhwydwaith llwybrau troed cyhoeddus yng Nghymru gan ddefnyddio dull o fath Adran 30. Byddai pwerau'n cael eu rhoi i awdurdodau priffyrdd lleol i asesu llwybrau ar gyfer eu hanaddasrwydd ar gyfer hawliau beicio a marchogaeth. Gellid eithrio llwybrau lle aseswyd bod y defnydd o hawliau o'r fath yn anaddas. Byddai 'anaddasrwydd' yn cael ei bennu ar sail proses a meini prawf asesu ffurfiol (asesiad anaddasrwydd).

iii. Rhoi hawliau beicio a hawliau uwch ar lwybrau troed yn ddetholus fesul achos	Byddai hawliau beicio a marchogaeth ceffylau yn cael eu cymhwyso i lwybrau troed cyhoeddus fesul achos. Byddai gan awdurdodau priffyrdd lleol ddyletswydd i werthuso'r llwybrau troed cyhoeddus ar draws eu rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer hawliau beicio a marchogaeth drwy gymhwyso meini prawf safonol. Byddai'r broses yn gysylltiedig â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy awdurdodau lleol.
---	---

Cynigion dethol opsiwn diwygio – nodi elfennau allweddol gofynnol

Ar gyfer pob un o'r opsiynau amlinellol diwygiedig a nodwyd uchod, mae'r disgrifiad cryno a'r elfennau allweddol angenrheidiol ar gyfer dull pob opsiwn wedi'u diwygio yn yr un modd. Caiff y rhain eu crynhoi isod.

2A(i) Rhoi hawliau statudol i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

I ehangu, ar draws yr holl lwybrau troed cyhoeddus yng Nghymru, yr ystod o weithgareddau y gall y cyhoedd eu gwneud drwy hawl. Byddai darpariaeth³ o fath Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 yn rhoi hawliau statudol i feicio a marchogaeth (y gelwir yn aml yn hawliau uwch) ar lwybrau troed cyhoeddus. Ni fyddai dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i gynnal neu wella llwybrau cyhoeddus ar gyfer defnyddio hawliau beicio a marchogaeth. Byddai pwerau awdurdodau priffyrdd lleol i wella a rheoli llwybrau'n cael eu hehangu. Byddai cymal neu gafeat yn y ddeddfwriaeth hefyd yn cael ei roi ar waith i amlinellu defnydd cyfrifol ar y llwybrau ac i ddarparu mecanwaith ar gyfer eithrio a rhwystro mynediad i unigolion sy'n defnyddio llwybrau'n anghyfrifol.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig i gymhwyso hawliau statudol i feicio a marchogaeth i lwybrau troed:

Mae gan yr opsiwn diwygiedig a gynigir i'w ddethol yr elfennau allweddol canlynol, yn ogystal ag ystyriaethau cysylltiedig:

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Diwygio'r ddeddfwriaeth i roi hawl i feicio a marchogaeth, drwy statud, ar lwybrau troed cyhoeddus ledled Cymru [gan ddefnyddio darpariaeth o fath Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968]	Ystyried ymhellach sut y gellir cymhwyso hawliau ar gyfer gweithgareddau masnachol i hawliau tramwy cyhoeddus a sut y gallant gyd-fynd yn well â'r ffordd y cânt eu cymhwyso i dir mynediad o dan y Ddeddf

³ Roedd Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 yn rhoi hawliau i feiciau pedal ar lwybrau ceffylau cyhyd â bod beicwyr yn ildio i gerddwyr a marchogion. Nid oes gofyniad i awdurdodau priffyrdd lleol gynnal llwybrau ceffylau ar gyfer beicwyr. I weld testun Adran 30 y ddeddfwriaeth, cliciwch [yma](#).

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
		Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.
002.	Y ddeddfwriaeth [yn debyg i Adran 30(3) o'r Ddeddf Cefn Gwlad] i nodi na fydd y diwygiad yn newid rhwymedigaethau cynnal a chadw'r awdurdod priffyrdd lleol a rhwymedigaethau cynnal a chadw eraill ar lwybrau troed cyhoeddus	Felly nid yw rhoi hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus yn cynyddu'r ddyletswydd i gynnal llwybrau troed cyhoeddus y tu hwnt i'r hyn sy'n berthnasol ar hyn o bryd.
003.	Diwygio rheoliadau mapio ar gyfer map a datganiad diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus i adlewyrchu'r newid o ran hawliau	Byddai angen i ddisgrifiadau drwy ffynonellau mapio eraill adlewyrchu'r newidiadau hefyd (e.e. yr Arolwg Ordnans).
004.	Amherthnasol*	
005.	Rhoi llai o atebolrwydd meddianwyr i hawliau tramwy cyhoeddus a'i gysoni'n well â'r lefel atebolrwydd ar gyfer meddianwyr sy'n berthnasol ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen cyngor cyfreithiol ar sut a phryd y gellir lleihau atebolrwydd meddianwyr sy'n ddyledus i ddefnyddwyr hawliau hamdden ar hawliau tramwy cyhoeddus. <p>Mater trawsbynciol yn niwygiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad yn eu cyfanrwydd yw a ddylid cysoni atebolrwydd meddianwyr yn well ar gyfer y rhai sy'n arfer hawliau tramwy cyhoeddus a hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a sut mae gwneud hynny.</p>
006.	Rhoi dyletswydd a phwerau cysylltiedig i awdurdodau priffyrdd lleol er mwyn ystyried addasu cyfyngiadau cyfreithiol (isadeiledd) i ganiatáu defnydd gan yr holl hawliau cymwys (gan gynnwys beicio a marchogaeth) wrth awdurdodi o'r newydd neu ailosod isadeiledd presennol ar lwybrau troed cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus eraill. Byddai'n rhaid i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried yr angen i gyfyngu ar fynediad anghyfreithlon wrth hwyluso gwelliannau hygyrchedd.	<ul style="list-style-type: none"> Dylid defnyddio'r egwyddor mynediad lleiaf rhwystrol wrth awdurdodi o'r newydd a gwneud newidiadau i isadeiledd llwybrau troed. Dylai gofynion presennol wrth awdurdodi adeileddau, megis ystyried anghenion rheoli tir, barhau. Ni ddylai'r ddyletswydd ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol adolygu'n systematig yr holl gyfyngiadau cyfreithiol presennol ar eu

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
		<p>rhwydweithiau o hawliau tramwy cyhoeddus.</p> <p>Dylai'r gwaith o wella hygyrchedd cyfyngiadau cyfreithiol presennol ar lwybrau troed fod yn gymwys ar gyfer cynlluniau talu defnydd tir cynaliadwy.</p>
007.	<p>Dylai deddfwriaeth roi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol gyfyngu ar fynediad neu ei wahardd er mwyn rheoli neu atal effeithiau defnydd ar lwybrau troed cyhoeddus am resymau penodol (gan gynnwys ar gyfer rheoli tir, cadwraeth natur a threftadaeth, ac iechyd a diogelwch). Dylai fod angen dull lleiaf rhwystrol o gymhwyso cyfyngiadau. Dylai'r cyfyngiadau fod yn agored i brosesau ymgeisio ac ymgynghori a dylai fod ganddynt broses apeliadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen pennu mecanwaith deddfwriaethol (gallai gynnwys proses ddiwygiedg ar gyfer gorchmynion rheoleiddio traffig neu ddull newydd) a bydd angen i hwnnw fod yn ddigon hyblyg i'w gymhwyso i ddsbarthiadau gwahanol o ddefnyddwyr lle bo hynny'n gyfiawnadwy. • Ystyried rhyngweithio â Diwygiad 2B y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.
008.	<p>Rhoi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol ddiweddarau arwyddion a marcwyr ar lwybrau troed sydd â hawliau beicio a marchogaeth, gan gynnwys y pŵer i osod arwyddion am resymau heblaw nodi cyfeiriad.</p>	<p>Dylai cyngor cyfreithiol ystyried digonolrwydd y pwerau a'r dyletswyddau sydd eisoes yn bodoli ac felly pa ddiwygiadau y gallai fod eu hangen.</p>
009.	<p>Cynnwys cymal neu gafeat yn y rheoliadau i amlinellu'n benodol y defnydd o hawliau marchogaeth a beicio cyfrifol, mewn canllaw neu fecanwaith arall. Byddai hyn yn cynnwys "hierarchiaeth defnyddwyr" ar lwybrau a "chytundebau ffurfiol" diffiniedig ar rannau o lwybr yr ystyriwyd eu bod yn broblemus. Gellid gwahardd defnyddwyr nad ydynt yn cydymffurfio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu mecanwaith statudol (e.e. tebyg i'r ffordd y mae Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban wedi'i osod neu Adran 2(4) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy) sy'n ymdrin â chamddefnydd gan ddefnyddwyr unigol, sy'n arwain atynt yn colli eu hawliau personol a mecanwaith gorfodi cyfochrog. • Gweler hefyd elfen allweddol 010.

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(i) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
010.	Gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru i gyflwyno cod ymarfer ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus sydd â defnydd a rennir, a dyletswydd ar Lywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod mynediad i hyrwyddo dealltwriaeth ohono.	Sicrhau cysondeb â diwygiadau hamdden gyfrifol cysylltiedig.
011.	Cyfleu hawliau mynediad (gan gynnwys o fewn mapiau, ymgyrch gyfathrebu, cod cefn gwlad [diwygiedig], gwybodaeth am hamdden gyfrifol a gwaith canllaw).	Mater ar gyfer camau rhoi diwygiad ar waith.
012.	Adolygu'r rheolau ynghylch gweithgareddau masnachol ar hawliau tramwy cyhoeddus a thir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a'u halinio'n well mewn perthynas â hawliau beicio a marchogaeth. Datblygu a chyfleu diffiniadau cliriach o weithgaredd masnachol mewn perthynas â hawliau mynediad.	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cysondeb â materion cysylltiedig mewn diwygiadau mynediad eraill. • Darpariaeth benodol ar gyfer deddfwriaeth Diwygiad 2A.

* Nid yw'r elfen allweddol o gam cynnig nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae cyfeirnodau'r elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

2A(ii) Rhoi hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus gyda phwerau i eithrio'r hawliau hynny ar sail anaddasrwydd

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

Byddai hawliau beicio a marchogaeth yn cael eu rhoi drwy statud ar draws y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus gan ddilyn dull o fath Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 a amlinellir yn Niwygiad 2A(i). Ni fyddai unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i gynnal llwybrau troed cyhoeddus o'r fath ar gyfer beicio a marchogaeth. Byddai pwerau'n cael eu rhoi i awdurdodau priffyrdd lleol asesu llwybrau ar gyfer anaddasrwydd hawliau uwch. Gellid diddymu hawliau beicio a marchogaeth ar lwybrau a aseswyd eu bod yn anaddas gan awdurdod priffyrdd lleol. Byddai 'anaddasrwydd' yn cael ei bennu ar sail proses a meini prawf asesu ffurfiol (asesiad anaddasrwydd) gyda darpariaeth ar gyfer ymgynghori ac apelio.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig i roi hawliau i feicio a marchogaeth drwy statud ar lwybrau troed gyda phwerau i'w heithrio yn seiliedig ar anaddasrwydd:

Mae gan yr opsiwn diwygiedig a gynigir i'w ddeddfol yr elfennau allweddol ac ystyriaethau cysylltiedig canlynol:

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Deddfwriaeth i roi hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus ledled Cymru gan ddefnyddio dull o fath Adran 30 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 [gweler Opsiwn Diwygio 2A(i) ar gyfer yr elfennau allweddol gofynnol hynny].	[Gweler troednodyn tri uchod ynghylch dull Adran 30]
002.	Pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol asesu llwybrau cyhoeddus ar gyfer eu hanaddasrwydd ar gyfer defnydd hawliau uwch [gyda hyblygrwydd i eithrio gwahanol fathau o hawliau defnyddwyr] – dim pwerau newydd neu ychwanegol i gyfyngu neu eithrio hawliau ar lwybrau troed.	<ul style="list-style-type: none"> • Pŵer dewisol i asesu anaddasrwydd. <p>Dylai deddfwriaeth ganiatáu i awdurdodau priffyrdd lleol asesu llwybrau cyhoeddus cyn i hawliau newydd ddod i rym.</p>
003.	Pwerau i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu proses asesu anaddasrwydd, gan gynnwys rhoi canllawiau gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau priffyrdd lleol ynghylch y broses a meini prawf asesu a'r gofynion cysylltiedig (e.e. ar gyfer ymgynghoriadau).	Proses i gynnwys hawliau i gyflwyno achos i awdurdod priffyrdd lleol am asesiad anaddasrwydd.
004.	Pwerau i osod fframwaith ar gyfer meini prawf asesu anaddasrwydd.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen i asesiadau anaddasrwydd gynnig prosesau teg. Bydd angen i gyngor cyfreithiol lywio elfennau allweddol penodol sy'n ofynnol (e.e. darpariaeth ar gyfer apeliadau). <p>Gallai'r meini prawf gynnwys: isadeiledd; lled y llwybrau presennol; diogelwch y cyhoedd; maint y defnydd – presennol a disgwylidig.</p>
005.	Dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i ymgynghori â sefydliadau penodol wrth gynnal asesiadau anaddasrwydd.	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid diffinio dull awdurdodau priffyrdd lleol o ymdrin â sylwadau ynghylch asesu anaddasrwydd llwybrau. • Dylai awdurdodau priffyrdd lleol bennu eu dull o weithredu'r diwygiad hwn mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy [yn amodol ar Ddiwygiad 3b]. <p>Mae gan fforymau mynediad lleol gwmpas a hawl yn eu rôl a'u swyddogaethau presennol i roi cyngor ar ddull awdurdodau</p>

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
		priffyrdd lleol (yma ac mewn mannau eraill yn y broses), e.e. i roi cyngor ar ddull yr awdurdod priffyrdd lleol o werthuso'r rhwydwaith, neu ar achosion penodol.
006.	Pwerau yn ôl disgrisiwn i awdurdodau priffyrdd lleol wneud penderfyniadau: dylai awdurdodau priffyrdd lleol fod yn gallu eithrio llwybrau penodol ar gyfer hawliau beicio a/neu farchogaeth.	Fforymau mynediad lleol – gweler y sylwadau gyda 005 uchod.
007.	Cynnwys apeliadau fel rhan o broses arfarnu – yr awdurdod priffyrdd lleol ddylai benderfynu ar hyn yn wreiddiol. Darpariaeth ar gyfer symud apeliadau ar faterion cymhleth neu rai heb eu datrys i'r Arolygiaeth Gynllunio am benderfyniad.	
008.	Pwerau yn ôl disgrisiwn i awdurdodau priffyrdd lleol adolygu anaddasrwydd llwybrau troed cyhoeddus ar gyfer hawliau beicio neu farchogaeth – ar gyfer y llwybrau hynny a eithriwyd yn barhaol, neu ganiatáu adolygu [gweler hawl].	<ul style="list-style-type: none"> • Yn gyffredinol, dylid ailwerthuso os oes newidiadau sylweddol i amgylchiadau yn hytrach nag ar sail cyfnodau penodol.
009.	Byddai angen pwerau i'r awdurdodau priffyrdd lleol ystyried a diwygio adeileddau ar lwybrau troed cyhoeddus er mwyn gwerthuso llwybrau a ddynodwyd yn anaddas (h.y. ni all dodrefn llwybr anaddas (e.e. gatiâu neu gamfeydd) fod yr unig reswm dros benderfynu eu bod yn anaddas).	<ul style="list-style-type: none"> • Wrth gynnig newidiadau i ddodrefn llwybr, dylid cynnwys gofynion bod awdurdodau priffyrdd lleol yn ymgynghori â pherchnogion adeileddau, gan gynnwys ystyried gwaith cynnal a chadw dilynol. • Mae angen ystyried y goblygiadau o ran rhoi adnoddau, gan gynnwys costau, sy'n gymesur â'r defnydd o bwerau.
010.	Diffinio amser dechrau – e.e. sut a phryd y daw hawliau newydd i rym.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno deddfwriaeth galluogi fesul cam o bosibl, megis gwneud addasiadau anaddasrwydd cyn rhoi hawliau cyffredinol. • Rhoi adnoddau a gwaith cefnogi ar waith, e.e. ar gyfer addasiadau anaddasrwydd ac i ddarparu ar gyfer gwaith ymarferol.

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
		Dylai'r oedi i weithredu'r hawliau fod yn gyfnod â therfyn amser.
011.	<p>Mwy o bwerau i awdurdodau priffyrdd lleol i roi arwyddion ar hyd llwybrau lle ceir mwy o gymhlethdod o ran darpariaeth mynediad, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Arwyddion cynghori lle mae hawliau mynediad wedi'u newid a/neu'n cael eu cyfyngu (drwy ddynodi eu bod yn anaddas) <p>Penderfyniad awdurdod priffyrdd lleol fyddai'r math o arwydd a'i leoliad</p>	
012.	<p>Addysg ynghylch y Cod Cefn Gwlad diwygiedig</p> <ul style="list-style-type: none"> - Diwygio'r Cod Cefn Gwlad a'r codau gweithgarwch cysylltiedig - Ymgyrch(oedd) codi ymwybyddiaeth y cyhoedd - Ymwybyddiaeth tiffeddianwyr - Posibilrwydd gorfodi a nodi'r hyn a ddisgwylir gan bobl <p>Pennu nodau cydymffurfio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried diwygio hamdden gyfrifol sy'n deillio o'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad, megis p'un a ddylid datblygu cod mynediad awyr agored statudol (yn debyg i'r hyn yn yr Alban).

* Nid yw'r elfen allweddol o gam cynnig nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

2A(iii) Rhoi hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus yn ddetholus fesul achos

Disgrifiad o'r cynnig dethol opsiwn:

Byddai hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus yn cael eu rhoi fesul achos. Byddai dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i werthuso'r llwybrau cyhoeddus ar draws eu rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer hawliau marchogaeth a beicio trwy gymhwysio meini prawf safonol. Byddai'r broses yn gysylltiedig â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy awdurdod.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig i roi hawliau i feicio a marchogaeth ar lwybrau troed cyhoeddus yn ddetholus fesul achos

Mae gan yr opsiwn diwygiedig hwn a gynigir i'w ddethol yr elfennau allweddol ac ystyriaethau cysylltiedig canlynol:

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Deddfwriaeth i roi pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol ddynodi llwybrau troed cyhoeddus unigol i roi hawliau i feicio a marchogaeth.	
002.	Pwerau ar gyfer rheoliadau i bennu proses ddynodi, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - meini prawf ar gyfer asesu llwybrau troed - darpariaeth ar gyfer asesu effeithiau (e.e. i reoli tir, cadwraeth natur / bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch ac ati) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen cyngor cyfreithiol i bennu a oes angen iawndaliadau ar gyfer llwybrau dynodedig fel rhan o brosesau. • Bydd angen rhagor o waith i ddiffinio'r meini prawf ac asesiadau angenrheidiol yn y cam paratoi deddfwriaeth. Fodd bynnag, sylwer y dylai'r meini prawf asesu gynnwys gwirio statws cyfreithiol llwybr gan gynnwys cofnodion sydd ar gael gan yr awdurdod priffyrdd lleol, e.e. map a datganiad diffiniol ac unrhyw brosesau i'w pennu.
003.	Dylai'r deddfwriaeth ddarparu ar gyfer prosesau syml â therfyn amser.	I sicrhau manteision, byddai angen i brosesau fod yn weddol hawdd ac yn gyflymach na'r gorchmynion llwybrau presennol er mwyn creu llwybrau.
004.	Gwneud darpariaeth gyfreithiol ar gyfer proses ymgynghori ac apelio.	<ul style="list-style-type: none"> • Gall fforymau mynediad lleol roi mewnbwn, o fewn eu rôl gynghori bresennol, i'r dull strategol ac achosion penodol.
005.	Diwygio rheoliadau map diffiniol i adlewyrchu newid.	Datblygu manylion wrth ddrafftio deddfwriaeth.
006.	Amherthnasol*	
007.	Pwerau ychwanegol i awdurdodau priffyrdd lleol addasu cyfyngiadau a llwybrau (isadeiledd) i hwyluso mynediad ar gyfer hawliau uwch ac am resymau hygrychedd.	<ul style="list-style-type: none"> • Pwerau ychwanegol i awdurdodau priffyrdd lleol / awdurdodau parciau cenedlaethol addasu cyfyngiadau o ran defnydd, megis isadeiledd ac arwynebedd.
008.	Amherthnasol*	
009.	Pwerau i awdurdodau priffyrdd lleol gyfyngu neu wahardd gwahanol hawliau trwy fecanwaith deddfwriaethol ar gyfer	<ul style="list-style-type: none"> • Pwerau perthnasol i bob effaith niweidiol (nid defnydd hawliau uwch yn unig).

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2A(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<p>lliniaru neu atal effeithiau niweidiol ar y llwybr cyhoeddus neu hawliau tramwy eraill.</p> <p>Deiliaid tir i allu gwneud cais i awdurdod priffyrdd lleol am gyfyngiad neu waharddiad oherwydd effeithiau ar fesurau rheoli tir penodol (e.e. amaethyddiaeth a choedwigaeth, cadwraeth natur, bywyd gwyllt, ystyriaethau iechyd a diogelwch, ac ati).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mekanwaith cod statudol i gymryd camau gorfodi yn erbyn ymddygiad anghyfrifol (cysylltiadau ag adran hamdden gyfrifol o'r adroddiad dadansoddi themâu trawsbynciol). • Potensial ar gyfer datblygu darpariaethau Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar gyfer yr elfen hon (e.e. ystyried darpariaethau Adrannau 22-22A o Reoliadau Deddf Traffig Ffyrdd 1984). • Gallai darpariaethau 2B gynnig digon o gwmpas i fynd i'r afael â'r angen hwn.
010.	Ystyried term/diffiniad newydd ar gyfer y llwybrau penodedig â hawliau uwch; mae hefyd angen darparu arwyddion statudol diwygiedig.	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried: <ul style="list-style-type: none"> ○ diwygio terminoleg llwybrau ffyrdd; neu ○ ailenwi llwybrau penodedig yn 'llwybrau cyhoeddus' • Dylai darpariaethau deddfwriaethol gadw map a datganiad diffiniol a chofnod mapio cyhoeddus fel llwybr troed wrth ddisgrifio hawliau ychwanegol sy'n berthnasol.
011.	Cod hamdden – addasu'r Cod Cefn Gwlad, felly canllawiau cynghorol yn unig.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darparu cod statudol yn cael ei ystyried ar wahân (gweler ystyriaethau ar gyfer elfen allweddol 009 uchod). • Diwygio'r Cod Cefn Gwlad. • Noder yr angen ar gyfer gwybodaeth a chanllawiau perthnasol eraill i adlewyrchu'r newidiadau.

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

Opsiynau diwygiedig Diwygiad 2B ar gyfer dethol opsiwn

Fel ar gyfer Diwygiad 2A uchod, mae'r cynigion opsiwn gwreiddiol ar gyfer Diwygiad 2B wedi'u diwygio ar ôl dadansoddi'r opsiynau. Mae teitlau a disgrifiadau'r opsiynau diwygiedig ar gyfer pob opsiwn 2A a gynigiwyd i'w ddeddf fel opsiwn wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

2B: Teitl y cynnig opsiwn diwygiedig	Disgrifiad amlinellol diwygiedig o'r cynnig opsiwn
i. Dargyfeirio neu gau drwy hysbysiad	Darparu proses syml ar gyfer gwneud dargyfeiriadau tymor byr o hawliau tramwy cyhoeddus gan ddeiliaid tir cofrestredig gan ddefnyddio hysbysiad i'r awdurdod priffyrdd lleol. Byddai'r hysbysebu ar-lein heb yr angen i hysbysebu yn y wasg. Byddai'n rhaid i'r deiliad tir ddarparu llwybr amgen addas gydag arwyddion; byddai'r dargyfeiriad, gyda mapiau, yn cael cyhoedduswydd ar-lein. Gellid gwneud hysbysiadau gan ddeiliaid tir am fesurau rheoli stoc a rhesymau penodol eraill ac ni fyddai angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr awdurdod priffyrdd lleol.
ii. Dargyfeiriad cod mynediad statudol	Byddai cod statudol mynediad awyr agored gorfodadwy newydd yn cynnwys darparu pwerau i ddeiliaid tir ddargyfeirio llwybrau cyhoeddus am resymau rheoli tir penodol. Byddai'n rhaid i ddeiliaid tir hysbysu'r awdurdod priffyrdd lleol o ddargyfeiriadau a darparu llwybr amgen addas, gydag arwyddion a hysbysiadau cysylltiedig.
iii. Dargyfeiriad dros dro ar gyfer gwaith	Darparu mecanwaith statudol i awdurdodau priffyrdd lleol wneud dargyfeiriadau tymor byr, dros dro i lwybrau cyhoeddus am resymau rheoli tir amaethyddol a choedwigaeth penodol. Byddai gan ddeiliaid tir hawl i wneud cais am ddargyfeiriadau o'r fath i lwybrau cyhoeddus ar eu tir, y byddai'n rhaid i'r awdurdod priffyrdd lleol eu cymeradwyo. Byddai'r deiliad tir yn darparu llwybr amgen addas ac arwyddion ar y safle; byddai'r cais ac unrhyw ddargyfeiriad cymeradwy, gyda mapiau, yn cael eu hysbysebu ar-lein. Byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei modelu ar Adran 135A o Ddeddf Priffyrdd 1980.

2B(i) Dargyfeirio neu gau drwy hysbysiad

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Symleiddio'r broses ar gyfer dargyfeiriad tymor byr drwy hysbysiad heb yr angen i hysbysebu yn y wasg. Dylid darparu llwybr amgen a'i ddangos ar-lein ac ar y tir. Mae'n cynnwys mesurau rheoli stoc a rhesymau penodol eraill.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig i ddargyfeirio neu gau drwy hysbysiad

Ystyriwyd bod angen cynnwys yr elfennau canlynol yn yr opsiwn i ddargyfeirio neu gau drwy hysbysiad:

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2B(i) diwygiedg ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Amherthnasol*	Mae elfen allweddol 002 ac elfen allweddol 003 bellach yn cwmpasu'r testun gwreiddiol bellach.
002.	<p>Darpariaethau deddfwriaethol newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - pŵer i ddeiliaid tir cofrestredig roi dargyfeiriadau dros dro tymor byr ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau - pwerau i'r Senedd gyflwyno rheoliadau i lywodraethu prosesau a gofynion cysylltiedig 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai darpariaeth ar gyfer cau – byddai angen defnyddio'r darpariaethau presennol megis gorchmynion rheoleiddio traffig. <p>Rheoliadau ar gyfer yr holl faterion perthnasol wrth ddilyn elfennau allweddol, e.e. rhesymau derbyniol dros ddargyfeiriadau; templedi ar gyfer hysbysiadau a gofynion ar gyfer darparu llwybrau dargyfeirio amgen.</p>
003.	<p>Dylai awdurdodau priffyrdd lleol gael yr holl wybodaeth berthnasol gyda'i gilydd mewn hysbysiad gan dirfeddianwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhestr wirio (rheswm dros ddargyfeirio, am beth a pham) - Map/cynllun o'r dargyfeiriad / lle mae'r llwybr wedi'i gau - Y llwybr amgen sydd ar gael (os na, yna rhesymau pam) - Gallu'r awdurdod priffyrdd lleol i wirio pa mor aml mae'n cau a chwestiynu'r angen 	Darperir pwerau rheoleiddiol gan elfen allweddol 002 (gweler uchod).
004.	<p>Deiliaid tir i gofrestru tir y gellir gwneud hysbysiadau am ddargyfeiriadau dros dro arno. Gofyniad cysylltiedig i awdurdodau priffyrdd lleol gadw cofrestr o ddeiliaid tir a rheoli'r gofrestr:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae angen cofrestru i ddefnyddio'r broses dargyfeirio dros dro symlach - Mae'n rhoi perchnogaeth/cynlluniau <p>Gall awdurdodau priffyrdd lleol nodi parseli a pherchnogaeth tir ac mae ganddynt gofnodion o ddargyfeiriadau a rhesymau blaenorol</p>	

Cyfeirnod	Eifen allweddol ofynnol Opsiwn 2B(i) diwygiedg ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
005.	<p>Opsiwn ar gyfer dargyfeirio defnyddwyr penodol dros dro:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Eithrio hawl dramwy gyhoeddus benodedig ar gyfer rhai mathau o ddefnyddwyr (ond yn dal i ganiatáu mynediad i fathau eraill) os bernir ei fod yn broblem ar gyfnodau penodol, e.e. cyfyngu cŵn yn ystod cyfnodau ŵyna / amddiffyn bywyd gwyllt <p>Gofyniad i ddarparu llwybr amgen</p>	Mae darparu llwybrau amgen caniatool yn parhau'n opsiwn [nid oes angen diwygiad deddfwriaethol].
006.	<p>Proses gwyno sy'n caniatáu proses fwy tryloyw [y gellir ei herio]. Ar gael i ddefnyddwyr / y cyhoedd</p>	
007.	<p>Rheoliadau i nodi gofynion ar gyfer hysbysiadau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Nodi dyddiad [dyddiad dechrau a gorffen] - Cyfrifoldeb ar y tiffeddiannwr i sicrhau bod hysbysiadau ar waith a'u tynnu i lawr ar y dyddiad a nodwyd <p>Gweithdrefn orfodi'r awdurdod priffyrdd lleol i ysgogi hyn, gan sicrhau nad yw dargyfeiriadau ar waith yn hwy na'r angen</p>	I'w cynnwys gan bwerau rheoleiddiol yn elfen allweddol 002.
008.	<p>Cyfleu hysbysiadau: Dyletswydd ar dirfeddianwyr i hysbysu'r awdurdod priffyrdd lleol ar-lein. Dyletswydd ar yr awdurdod priffyrdd lleol i gyfleu i'r canlynol drwy hysbysiad ar-lein [e.e.]:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Grwpiau defnyddwyr - Y cyhoedd - Eraill (fel y nodir) <p>Tirfeddianwyr: Mae angen hysbysiad a chynllun ar y safle ni waeth hyd y dargyfeiriad neu'r cau</p>	I'w gynnwys ym mhwerau rheoleiddiol elfen allweddol 002
009.	Diwygio'r cod/codau mynediad hamdden gyfrifol ac awyr agored fel y bo'n briodol.	<ul style="list-style-type: none"> • Diwygio'r holl godau a chanllawiau mynediad hamdden gyfrifol wrth weithredu'r opsiwn. <p>Ymgyrch wybodaeth gysylltiedig i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr, rheolwyr tir ac eraill am y darpariaethau a'r newidiadau posibl i lwybrau ar lawr gwlad.</p>

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

2B(ii) Dargyfeiriad cod mynediad statudol

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Cod statudol i ddiffinio darpariaeth o fesurau tymor byr amgen i ddargyfeirio mynediad cyhoeddus ar gyfer dibenion rheoli tir. Byddai llwybrau amgen a ddarperir yn unol â'r cod yn hawl dramwy dros dro.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig 'dargyfeiriad cod mynediad statudol':

Ystyriwyd bod angen yr elfennau allweddol canlynol yn yr opsiwn 'dargyfeiriad cod mynediad statudol':

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	Deddfwriaeth ar gyfer cod mynediad statudol i alluogi'r opsiwn hwn (a fyddai ag elfennau gorfodol a chynghorol).	
002.	<p>Diffinio (yn y canllawiau o fewn y cod) amgylchiadau dargyfeiriad(au) tymor byr, dros dro.</p> <p>Amgylchiadau wedi'u diffinio'n glir yn y cod i ddefnyddwyr/tirfeddianwyr/rheolwyr wneud dargyfeiriadau a rhoi cyfyngiadau ar ddefnydd ar waith, a rhesymau rheoli tir amaethyddol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Meini prawf cymwys ar gyfer defnyddio'r dargyfeiriad dros dro sy'n seiliedig ar god statudol (e.e. dibenion, hyd, darpariaeth llwybr amgen addas, cymaint o'r hawl dramwy gyhoeddus yr effeithir arni ac ati). • Byddai canllawiau yn gofyn am fewnbwn deiliaid tir a rhanddeiliaid (e.e. Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru). • Ni fydd yr opsiwn yn disodli darpariaethau ar gyfer dargyfeiriadau tymor hwy neu barhaol neu ar gyfer rhai mathau o waith sy'n effeithio ar lwybr cyhoeddus (e.e. nid gwaith sy'n newid llwybr).
003.	<p>Diffinio llwybr amgen rhesymol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Darpariaeth ddiogel a rhesymol - Mynediad cyfatebol i lwybr presennol - Hysbysiadau, arwyddion <p>Atebolrwydd sy'n berthnasol</p>	Mae angen ystyriaeth gyfreithiol bellach ar atebolrwydd ynghylch dargyfeiriadau ac anghenion cysylltiedig yn ystod y cyfnod drafftio.
004.	<p>Cyfathrebu o fewn y cod</p> <ul style="list-style-type: none"> - Yr hyn i'w ddisgwyl yn y cod - Cyfleu'r cod i bawb 	

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2B(ii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<ul style="list-style-type: none"> - Rhoi gwybodaeth am bob agwedd i'r cyhoedd, rheolwyr mynediad a deiliaid tir 	
005.	Datblygu cod statudol cyffredinol ar gyfer holl hawliau mynediad ar hawliau tramwy cyhoeddus ac o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried hefyd rinweddau fframwaith gwell ar gyfer llwybrau amgen caniataol sy'n defnyddio elfennau o'r dull hwn, er nad yw llwybrau caniataol yn mynd i'r afael â phryderon rheolwyr tir ynghylch atebolrwydd llwybrau amgen. • Byddai prosesau hawliau tramwy cyhoeddus eraill yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddargyfeiriadau dros dro lle nad yw'r meini prawf cymhwyso ar gyfer y broses hon yn cael eu bodloni.
006.	Cod i ddiffinio manylion am derfynau i raddau a hyd dargyfeiriadau dros dro.	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai angen diffinio manylion megis hyd, amlder y defnydd, rhesymau dros ddefnyddio [ac ati] yn y cod. • Byddai'n rhaid defnyddio pwerau presennol i gau (e.e. gorchmynion rheoleiddio traffig). • Byddai'n rhaid defnyddio pwerau presennol (e.e. gorchmynion rheoleiddio traffig) ar gyfer dargyfeiriadau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr opsiwn hwn.
007.	<p>Cyfleu dargyfeiriad dros dro:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Templed arwyddion a hysbysiadau (i fod yn rhan o'r cod) <p>Presenoldeb pwrpasol ar y cyfryngau cymdeithasol am ddargyfeiriadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys templedi safonol ar gyfer hysbysiadau ac arwyddion cyfeirio. • Cyfrif ar y cyfryngau cymdeithasol i'r cyhoedd gael yr holl wybodaeth am y cod statudol.
008.	<p>Proses gwyno drwy awdurdod priffyrdd lleol</p> <ul style="list-style-type: none"> - I ddefnyddwyr sydd â chwyn am ddargyfeiriadau tymor byr gan ddefnyddio'r weithdrefn hon <p>Cosbau neu orchymyn y darperir ar eu cyfer yn y broses cod statudol neu sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ef</p>	Yn debygol o roi mwy o faich ar randdeiliaid.

* Nid yw'r elfen allweddol o'r cam nodi opsiynau bellach wedi'i chynnwys. Bydd hyn oherwydd, yn dilyn y cam dadansoddi, ni chafodd yr elfen ei hystyried yn hanfodol neu fe'i hymgorfforwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn elfen allweddol arall. Mae'r cyfeirnodau elfennau allweddol wedi'u cadw i'w gwneud hi'n haws cymharu'r opsiynau diwygiedig hyn â'r fersiynau gwreiddiol. Gweler yr adroddiad dadansoddi i gael rhagor o wybodaeth am newidiadau i elfennau allweddol.

2B(iii) Dargyfeiriad dros dro ar gyfer gwaith

Disgrifiad amlinellol o'r cynnig opsiwn:

Defnyddio'r un mecanwaith sy'n cael ei ddatblygu yn Lloegr i greu dargyfeiriadau dros dro i hawliau tramwy cyhoeddus o dan Adran 135A o'r Ddeddf Priffyrdd.

Dethol opsiwn – elfennau allweddol yn y cynnig opsiwn amlinellol ar gyfer dargyfeiriadau dros dro ar gyfer gwaith:

Ystyriwyd bod angen yr elfennau allweddol canlynol yn yr opsiwn 'dargyfeiriad dros dro ar gyfer gwaith':

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2AB(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
001.	<p>Diffinio [gan dynnu ar gynigion deddfwriaethol drafft yn Lloegr] Adran 135A newydd o Ddeddf Priffyrdd 1980:</p> <ul style="list-style-type: none">- Awdurdodau priffyrdd lleol i gael pwerau newydd i greu dargyfeiriadau dros dro am resymau rheoli tir penodol: gwaith [cysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth] a rheolaeth amaethyddol ar dda byw- Awdurdodau priffyrdd lleol i bennu a gwneud dargyfeiriadau dros dro- Dargyfeiriadau a wnaed yn briodol i fod â statws hawl dramwy gyhoeddus dros dro gyda phwerau cysylltiedig [ar gyfer awdurdodau priffyrdd lleol], hawliau a chyfrifoldebau- Cyfyngiadau o ran defnydd- Rheoliadau ar gyfer y broses	<ul style="list-style-type: none">• Ni ddarperir ar gyfer cau. Byddai angen i achosion o'r fath ddefnyddio darpariaethau sydd eisoes yn bodoli megis gorchmynion rheoleiddio traffig.• Bydd angen i ddatblygiad 2B ystyried y penderfyniad a wnaed gyda Diwygiad 2A.• Pwerau i awdurdod priffyrdd lleol ddargyfeirio i dir cyfagos gyda chytundeb.• Gellid gosod rhai cyfyngiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd a gallent gynnwys nifer, hyd a maint cyfyngedig dargyfeiriadau/cau o'r fath o fewn unrhyw ddaliad tir neu ddaliad tir cyfagos ar unrhyw adeg ac o fewn cyfnod penodol.• Byddai pwerau yn ôl disgrisiwn ar gyfer awdurdod priffyrdd lleol yn rhoi mwy o hyblygrwydd.• Mae'r defnydd o orchmynion rheoleiddio traffig ar hyn o bryd yn isel – mae cyfradd y defnydd o'r ddarpariaeth hon yn anodd ei hasesu.
002.	<p>Pwerau rheoleiddiol i ddiffinio proses a meini prawf, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">- ffurf a gwneud ceisiadau- meini prawf asesu a phrosesu ceisiadau- meini prawf penderfynu [gan gynnwys asesu llwybrau amgen, e.e. effaith ar rwydwaith / teithiau cysylltiol; iechyd a	<ul style="list-style-type: none">• Byddai dull rheoleiddiol yn rhoi mwy o hyblygrwydd wrth bennu gofynion manwl (gweler yr ystyriaeth uchod am gyfyngiadau o ran hyd, graddau ac ati).• Gellid datblygu porth ceisiadau [a hysbysu] canolog ar gyfer Cymru yn y dyfodol, a allai fod yn gysylltiedig â Diwygiad 3A, ond nid yw'n hanfodol i symud ymlaen â'r diwygiad fel y cynigiwyd. [Gellid ei ddefnyddio bosibl ar

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2AB(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
	<p>diogelwch; mynediad lleiaf rhwystrol ac ati]</p> <ul style="list-style-type: none"> - ceisiadau ar-lein [a hysbysiadau – gweler isod] i'r awdurdod priffyrdd lleol - safonau ar gyfer darparu llwybrau amgen [gan gynnwys cysylltedd; math o hysbysiadau/arwyddion] 	<p>gyfer ystod o brosesau mynediad cyhoeddus – gyda chysylltiadau â Diwygiad 3A, map mynediad integredig.]</p>
003.	<p>Darparu cyfnod rhybudd o 14 diwrnod cyn gwneud unrhyw waith. Mae'n ofynnol rhoi hysbysiad ar-lein trwy wefan yr awdurdod priffyrdd lleol.</p> <p>Awdurdodau priffyrdd lleol i ddarparu hysbysiadau/arwyddion safonol wedi'u stampio â dyddiad cychwyn/diwedd i dirfeddianwyr / rheolwyr tir eu rhoi ar y safle.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gellid ymgynghori ar yr union gyfnod hysbysu.
004.	Amherthnasol*	
005.	<p>Proses ymgeisio ar-lein i leihau'r amser gweinyddol ar gyfer yr awdurdod priffyrdd lleol, gan gynnwys y templedi/ffurflenni i greu'r holl waith papur cyfreithiol angenrheidiol ar-lein.</p> <p>Hysbysu dargyfeiriadau ar-lein – lleihau costau hysbysebu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gallai darparu amlinelliad dau gam a chamau cadarnhau roi mwy o hyblygrwydd i reolwyr tir ddefnyddio darpariaethau. • Bydd angen opsiynau eraill i brosesau ar-lein er mwyn bodloni dyletswyddau cydraddoldeb.
006.	<p>Byddai gan yr hawl dramwy gyhoeddus a ddargyfeiriwyd dros dro yr un rhwymedigaethau ar gyfer awdurdod priffyrdd lleol a deiliaid tir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen ystyriaeth gyfreithiol bellach o'r goblygiadau atebolrwydd sydd eu hangen i gadarnhau bod hyn yn rhesymol gyraeddadwy. • Gallai awdurdodau priffyrdd lleol fod yn atebol os ydynt yn archwilio llwybrau dargyfeirio cyn iddynt ddod i rym, ond mae goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau priffyrdd lleol a chostau posibl i ddeiliaid tir. • Gellid gosod atebolrwydd llwybr dargyfeirio yr un fath ag ar gyfer rhai caniatool – byddai'n lleihau atyniad y broses i dirfeddianwyr ac yn eu gwneud yn debyg i lwybrau amgen caniatool. • Gostyngiad pellach o ran atebolrwydd ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus yn unol

Cyfeirnod	Elfen allweddol ofynnol Opsiwn 2AB(iii) diwygiedig ar gyfer y cynnig dethol opsiwn	Ystyriaethau sydd ynghlwm wrth yr elfen allweddol
		<p>â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy [neu yn unol â Deddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir yn Lloegr] ac mae'r darpariaethau hyn yn gofyn am gyngor cyfreithiol pellach.</p>
007.	<p>Dyletswydd ar ddeiliad y tir i ddarparu llwybr amgen addas, gan gynnwys isadeiledd a gosod hysbysiadau, arwyddion/ffensys dros dro (yn yr achosion o reoli stoc) i nodi'r dargyfeiriad.</p> <p>Dyletswydd ar yr awdurdod priffyrdd lleol i ddarparu hysbysiadau ac arwyddion safonol awdurdodedig wedi'u stampio â dyddiad i'r deiliad tir eu defnyddio, a phostio hysbysiadau gyda map o'r llwybr yr effeithir arno ar wefan yr awdurdod.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae elfen allweddol 002 yn cyfeirio at y pwerau i ddarparu rheoliadau i bennu gofynion, megis darparu llwybrau amgen derbyniol a thempledi safonol ar gyfer hysbysiadau ac arwyddion.
008.	<p>Bydd angen i ddarpariaethau ystyried hawliau beicio a marchogaeth posibl ar lwybrau troed (yn amodol ar ganlyniad cynigion Diwygiad 2A).</p> <p>Byddai deddfwriaeth galluogi, lle mae manylion yn cael eu darparu drwy reoliadau, yn fwy hyblyg ac yn haws ei hadolygu yn y dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Fel arfer, gellid cynnwys proses adolygu o'r pwerau i sicrhau y gellir eu newid, os oes angen.
[Newydd] 009.	<p>Gwybodaeth a chanllawiau am y darpariaethau newydd a ddarperir ar gyfer y cyhoedd, rheolwyr tir a phobl eraill â diddordeb; gwybodaeth wedi'i chynnwys o fewn codau hamdden cyfrifol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r elfen yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o roi'r opsiwn ar waith. • Sicrhau cysylltiad â Diwygiad 3A cyn belled ag y bo hynny'n berthnasol i'r dull a gymerir.

Atodiad A

Aelodau Grŵp Arbenigol 2 y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad:

Enw	Sefydliad
Kate Ashbrook	Y Gymdeithas Mannau Agored
Chris Dale	Cyngor Abertawe
Duncan Dollimore	Cycling UK
Sophie Dwerryhouse	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Nick Fenwick	Undeb Amaethwyr Cymru
Rachel Lewis-Davies	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Rhian Nowell Phillips [Rachel Evans o fis Awst 2020]	Y Gynghrair Cefn Gwlad
Anthony Richards	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
David Shiel	Ardal o Harddwch Eithriadol Naturiol Bryniau Clwyd
Mark Weston	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Alison Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Joseph Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sarah Smith	Llywodraeth Cymru
Jont Bulbeck	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jayne Carter	Cyfoeth Naturiol Cymru